

# Polisi Amddiffyn Plant

2016-17



# Cyngor Dinas Casnewydd - Gwasanaeth Addysg

## Polisi Amddiffyn Plant

### Cyflwyniad

Lluniwyd y ddogfen bolisi hon ar sail cefnogi arfer da mewn Addysg a gwasanaethau eraill sy'n rhoi cymorth i blant, o ran amddiffyn plant. Mae'n nodi'n glir bod disgwyl i ysgolion a gwasanaethau cymorth a reolir yn ganolog gael eu polisiau a'u gweithdrefnau amddiffyn plant eu hunain, sy'n unol â gweithdrefnau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, ac yn cyfeirio at yr ymarfer y mae Cyngor Dinas Casnewydd (NCC) yn tybio ei fod yn ddiogel ac yn broffesiynol o fewn y maes amddiffyn plant.

Mae NCC yn rhoi pwyslais mawr ar yr angen i sicrhau bod cyfle cyfartal yn treiddio i'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â phlant, a bydd yn parhau i hyrwyddo a datblygu ei rôl fel eiriolwr ac amddiffynnwr y rhai sy'n wynebu anawsterau arbennig wrth wireddu eu potensial llawn.

Mae NCC yn cymryd ei rôl a'i gyfrifoldebau o ddifrif i amddiffyn a diogelu lles a buddiannau'r holl blant yn ei ofal. Ni ellir gorbwysleisio ei rôl wrth amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio a neu gam-drin.

Mae delio â diogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn faes heriol ac anodd. Mae'r anawsterau a'r galwadau hyn wedi'u cydbwysu gan adegau sy'n rhoi boddhad, pan fydd staff yn cydweithio i gefnogi ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn llwyddiannus. Cydnabu NCC y ffactorau hyn ac mae'n anelu at sicrhau y rhoddir yr hyfforddiant, arweiniad a chyfarwyddyd priodol i bob aelod o staff yng Nghasnewydd yn y maes sensitif ond hanfodol hwn.

Mae'n hysbys iawn bod gwaith amddiffyn plant effeithiol yn galw am weithdrefnau clir a chadarn, cydweithio a chydweithredu da rhwng asiantaethau, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n gweithio yn y maes hwn fod yn gymwys a hyderus wrth gydnabod ac ymateb i sefyllfaoedd amddiffyn plant.

Wrth lunio'r polisi hwn bydd y cyngor yn manteisio ar brofiad, gweithdrefnau ac arferion y gweithwyr proffesiynol hynny sy'n gweithio gyda phlant mewn lleoliadau addysg, cymdeithasol ac iechyd a lleoliadau cysylltiedig eraill. Caiff y polisi hwn ei lywio hefyd gan arfer da hysbys yn NCC ac ar sail genedlaethol, ac mae'n unol â pholisiau, protocolau a gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru (SEWSCB).



## **Rôl Awdurdodau Lleol**

Mae Adranau 27 a 47 o'r Ddeddf Plant yn rhoi dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i helpu Gwasanaethau Cymdeithasol Lleol sy'n gweithredu ar ran plant a phobl ifanc mewn angen neu sy'n dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol.

Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach wneud trefniadau i sicrhau y cyflawnir eu swyddogaethau gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

At ddiben y ddogfen hon, mae'r disgrifiad o blentyn yn cyfeirio at rywun hyd at 18 oed, fel y'i disgrifir yng Ngweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.

Yn ogystal â'r ddyletswydd statudol hon, mae cyfrifoldeb corfforaethol a bugeiliol yn bodoli, sy'n cydnabod bod gan bob plentyn a pherson ifanc, sydd angen y gwasanaethau a ddarperir gan NCC neu sy'n eu defnyddio, hawl sylfaenol i gael eu hamddiffyn rhag niwed.

Lluniwyd y polisi hwn i ategu'r cyfrifoldebau hynny, ac mae'n ymdrechu i sicrhau bod pob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc neu ar eu rhan yng Nghasnewydd yn ymwybodol o'r angen i weithredu mewn ffordd gyson er mwyn gwella lles a diogelwch plant.

Wrth wneud hyn, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod y Swyddog Diogelu Addysg yn adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli ar gyfer Addysg yn rheolaidd ar faterion yn ymwneud ag amddiffyn plant yng Nghasnewydd. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif i fynd i'r afael â materion ymarfer, polisi a hyfforddiant wrth iddynt godi a'u cyfleu i bob sefydliad a gwasanaeth addysg a ddarperir gan NCC. Bydd yr Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi ac yn hyrwyddo gwaith SEWSCB a bydd 'Ein Cyngor Ein Dinas' yn parhau i fod yn ganolog i'n hethos gwaith wrth ddarparu gwasanaethau sy'n 'addas ar gyfer y dyfodol' ac sy'n diwallu anghenion plant yn ein dinas.

## **Diben y polisi**

Nod y polisi hwn yw rhoi fframwaith sy'n sicrhau bod polisiau ac arferion yn NCC yn gyson ac yn unol â gwerthoedd datganedig sy'n sail i'r holl waith gyda phlant a phobl ifanc. Fel y cyfryw, mae'r ddogfen hon yn darparu cyd-destun ar gyfer sefydlu arfer da ym mhob mater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a gofalu amdanynt.

Mae'r ddogfen hon hefyd yn ymdrechu i hysbysu pob aelod o staff NCC am eu cyfrifoldebau proffesiynol er mwyn sicrhau y bodlonir dyletswyddau statudol a dyletswyddau eraill yn unol â'r holl ofynion a gweithdrefnau lleol a chenedlaethol.





## **Gwerthoedd Sylfaenol**

Gwerth cyffredinol: Mae lles y plentyn yn hollbwysig.

Gwerthoedd Cynulliad Cymru: 7 Nod Craidd - er mwyn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. Yn cael dechrau da mewn bywyd;
2. Yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
3. Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl heb i neb gam-fanteisio arnynt, eu cam-drin na'u herlid;
4. Yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
5. Yn cael eu clywed, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod;
6. Yn cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol; ac
7. Yn osgoi cael eu rhoi dan anfantais oherwydd tlodi.

Gwerthoedd sylfaenol eraill:

- Mae gan blant yr hawl i gael eu trin â pharch ac urddas, ynghyd â'r oedolion sy'n gweithio gyda nhw.
- Cyfrifoldeb pob oedolyn yw amddiffyn plant.
- Bydd gan bob oedolyn sy'n gweithio'n wirfoddol neu am dâl mewn sefydliadau Addysg a sefydliadau cyswllt gyfrifoldeb i amddiffyn plant rhag niwed os a phryd bynnag y bo'n bosibl iddynt wneud hynny.
- Dylai pob plentyn gael y cyfle i godi pryderon, mynegi ei farn a chyfrannu at benderfyniadau a wneir am ei fywyd, os a phryd bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol.
- Caiff yr holl waith a wneir gyda phlant a phobl ifanc ei lywio gan gyfleoedd cyfartal ac ymarfer gwrth-ormesol a bydd yn adlewyrchu anghenion amrywiol y cymunedau a wasanaethwn.
- Rhaid i bawb sy'n gweithio gyda neu ar ran plant a phobl ifanc adlewyrchu a hyrwyddo gwerth 'Gweithio gyda'n Gilydd' gyda rhieni, cydweithwyr ac asiantaethau eraill er mwyn creu amgylcheddau diogel ac amddiffyn plant rhag niwed.

## **Polisiâu, Gweithdrefnau ac Ymarfer**

Bydd pob sefydliad neu wasanaeth y mae'r Adran Addysg yn gyfrifol amdano ac sy'n cynnwys dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc, yn sicrhau bod staff dynodedig ar gael sy'n gymwys i ymateb i sefyllfaoedd amddiffyn plant a phryderon yn eu cylch os a phryd bynnag y gallant godi. Un o argymhellion yr Awdurdod yw bod dirprwy berson dynodedig a enwir yn cael ei enwebu mewn pob sefydliad er mwyn sicrhau bod rhywun ar gael yn ystod absenoldeb y person penodedig.



Yn y sefydliadau a'r gwasanaethau hyn, bydd Polisi Amddiffyn Plant ysgrifenedig. Bydd dogfen o'r fath yn nodi gweithdrefnau mewnol, codau ymddygiad ac ymarfer penodol, ac unrhyw wybodaeth arall sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

Bydd y ddogfen hon yn adlewyrchu'r canllawiau a'r cyngor a gafwyd o ffynonellau Cenedlaethol a Lleol, yn enwedig, Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (Ebrill 2008), Cadw Plant yn Ddiogel (2015) a pholisiau a gweithdrefnau cysylltiedig y cytunwyd arnynt gyda SEWSCB. (Ceir canllawiau polisi enghreifftiol ar ddiwedd y ddogfen hon yn Atodiad A)

Dylai'r polisi hwn gynnwys gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â honiadau yn erbyn unrhyw oedolyn sy'n gweithio mewn unrhyw swydd yn y sefydliad neu'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r awdurdod wedi llunio canllawiau i reolwyr wrth ddelio â honiadau yn erbyn staff ac maent i'w gweld ar ddiwedd y ddogfen hon.

Mae proses 'Chwythu'r Chwiban' gyffredinol yn y rhan fwyaf o sefydliadau y gall staff ei defnyddio pan godir pryderon ynghylch ymarfer a materion eraill sy'n gysylltiedig â gwaith. Ym maes Addysg, mae canllawiau penodol i ysgolion a gellir eu gweld yng nghylchlythyr 36/2007 a cheir manylion llawn yn yr atodiadau. Mae'r adran Adnoddau Dynol wedi llunio canllawiau hefyd a ychwanegir at bob polisi amddiffyn plant mewn ysgolion o ran sicrhau bod staff yn gallu cysylltu â'r adran Adnoddau Dynol os oes ganddynt bryderon 'Chwythu'r Chwiban'. (Ffoniwch 01633-656-656 a gofynnwch am gael eich cysylltu â'r adran Adnoddau Dynol - nid oes angen rhoi enw)

### **Cod Ymddygiad**

Bydd pob oedolyn sy'n gweithio yng Nghasnewydd naill ai mewn swydd â thâl neu mewn swydd wirfoddol yn cadw at godau ymddygiad penodol a nodir yn glir ym mholisi pob sefydliad. Caiff y disgwyliad hwn o ran y cod ymddygiad ei bwysleisio i bob unigolyn ar ddechrau ei gyflogaeth neu gyfnod o gymorth gwirfoddol.

Bwriad codau ymddygiad o'r fath yw diogelu lles plant a chynnig amddiffyn oedolion y gwyddys eu bod yn agored i niwed mewn rhai sefyllfaoedd.

### **Cofnodion a Chadw Cofnodion**

Mae cofnodion trefnus yn hanfodol mewn sefyllfaoedd lle yr amheuir neu y credir bod plentyn mewn perygl o niwed efallai neu'n debygol o fod mewn perygl o niwed.



Bydd yn ofynnol i bob sefydliad a gwasanaeth gadw cofnodion amddiffyn plant cywir a pherthnasol. Cedwir y cofnodion hyn mewn man diogel ond ar wahân i bob cofnod arall sy'n ymwneud â'r plentyn. Caiff y 'Cofnodion Amddiffyn Plant' hyn eu defnyddio a'u cynnal gan y person/au dynodedig yn unig. Efallai y bydd gan y sefydliad neu'r gwasanaeth ddirprwy berson dynodedig a enwir a bydd ganddo'r hawl i weld y cofnodion pan fydd angen.

Darperir canllawiau pellach ar gadw cofnodion yn effeithiol gan Education Safeguarding. Bydd angen i bob sefydliad neu wasanaeth gynnwys gweithdrefnau penodol yn eu polisi ar gyfer trosglwyddo cofnodion sensitif pan fydd angen.

Mae Cofnodion Amddiffyn Plant yn gorfod cadw at y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd a'r trefniadau storio yn y sefydliad hwnnw. Cedwir y cofnodion am gyfnod nad yw'n llai na 7 mlynedd ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 18 oed. Ceir rhagor o fanylion am gofnodion yng nghylchlythyr 13/2006 a nodir yn yr atodiadau.

Bydd rhannu gwybodaeth neu gofnodion yn destun protocolau a gweithdrefnau cytûn NNC a SEWSCB a gellir eu gweld mewn dogfen ar ddiwedd y polisi hwn.

Bydd pob sefydliad neu wasanaeth yn cadw ac yn cynnal cofnodion sy'n rhoi manylion am honiadau o gam-drin yn erbyn unrhyw aelod o staff sy'n gweithio gyda'r sefydliad neu'r gwasanaeth, boed mewn swydd â thâl neu'n wirfoddol, beth bynnag fo'r canlyniad. Mae gofynion clir o ran pryd y dylid rhannu'r wybodaeth hon â sefydliadau cyfreithiol neu statudol fel y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Chyngor y Gweithlu Addysg i enwi ond dau. Rhaid holi'r Adran Adnoddau Dynol i gael cyngor ac arweiniad ar rannu'r wybodaeth benodol hon.

#### Recriwtio, Goruchwylio a Chefnogi Staff

Dros y blynyddoedd diwethaf bu ymwybyddiaeth gynyddol o'r posibilrwydd fod pobl mewn swyddi cyfrifol yn cam-drin ac felly, mae'n hanfodol recriwtio a dewis staff mewn ffordd ofalus a thrwyadl. Bydd angen i'r rhai sy'n gyfrifol am gyflogi a dethol staff gymryd pob cam i sicrhau y cynhelir gweithdrefnau fetio. Rhaid cymryd gofal i sicrhau bod yr holl fanylion yn cael eu gwirio ac y ceir gafael ar eiradaon ac y cânt eu gwirio. Gellir cael rhagor o arweiniad a chymorth drwy gysylltu ag Adran Adnoddau Dynol yr Awdurdod a ddarperir gan SEWSCB ar Recriwtio Mwy Diogel.

Bydd angen i'r darpar gyflogwr gynnal gwiriadau manylach ar gyfer pob aelod o staff a chydymffurfio â gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rhai sy'n bwriadu gweithio gyda phlant. Gellir cael canllawiau ychwanegol drwy ddarllen canllawiau a gyhoeddwyd gan adran Adnoddau Dynol Cyngor Dinas Casnewydd.

Rhaid i bob sefydliad neu wasanaeth hefyd sicrhau bod gan bob aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant fynediad at wasanaethau ymsefydlu, hyfforddi, goruchwylio a chymorth priodol.



## **Hyfforddiant**

Bydd angen i Benaethiaid a Rheolwyr sicrhau bod pob aelod o staff yn gallu cael hyfforddiant sy'n berthnasol ac yn briodol i'w rôl. Argymhellir bod staff yn cael hyfforddiant amddiffyn plant cyfredol ar adeg y tybir ei bod yn angenrheidiol gan Benaethiaid a Rheolwyr, ond o ddewis, o fewn cyfnod o dair blynedd i'r dyddiad y cafodd yr hyfforddiant diwethaf.

Dylai'r rheini sydd â rôl Uwch-berson Dynodedig a Dirprwy Uwch-berson Dynodedig sydd wedi'u hyfforddi i adnabod ac ymateb i sefyllfaoedd lle mae plant wedi cael niwed neu'n debygol o gael niwed ac yr ystyrir eu bod mewn perygl, gael hyfforddiant yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol. Dylai'r personau hyn gael yr hyfforddiant diweddaraf o fewn dwy flynedd i'w hyfforddiant diwethaf.

Mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant drwy SEWSCB, ac yn ymdrechu i sicrhau bod unrhyw hyfforddiant a gynigir gan y Swyddog Diogelu Addysg yn ategu ac yn cefnogi gwaith SEWSB fel y nodir gan ei is-grŵp ar gyfer hyfforddiant sy'n rhan o'r Grŵp Hyfforddi Rhanbarthol.

Dylai staff fod yn glir ynghylch eu rôl a'u cyfrifoldebau mewn perthynas ag amddiffyn plant a bod yn ymwybodol o rôl eu cydweithwyr a deall y rôl honno, gan gynnwys rolau gweithwyr eraill o asiantaethau ategol.

## **Cysylltiadau â Pholisiau, Deddfwriaeth a Chanllawiau eraill**

Rhaid darllen y polisi hwn a'i ystyried o fewn cyd-destun polisiau eraill sy'n ymwneud â gwaith gyda phlant a phobl ifanc. Bydd angen i staff ystyried a bod yn ymwybodol o'r ffordd y mae ac y gall materion eraill effeithio ar sefyllfaoedd amddiffyn plant, megis camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, cam-drin domestig, materion iechyd meddwl, bwlio a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant.

Gellir gweld rhestr gynhwysfawr o bolisiau a dogfennau ar y tudalennau dilynol. Yn ychwanegol at hyn nodir nifer o wefannau fel hyperddolenni i ganllawiau, cyngor a gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu a lles plant.

Gellir gweld y polisi hwn a'r wybodaeth uchod ar wefan Amddiffyn Plant Casnewydd, sef [www.newportlearn.net/cps](http://www.newportlearn.net/cps)

Rhestr o bolisiau, canllawiau, cyngor a dolenni gwefan priodol ychwanegol a chysylltiedig



Gellir gweld pob un o'r dogfennau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru:

[www.wales.gov.uk/educationandskills](http://www.wales.gov.uk/educationandskills)

- Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan - Ebrill 2008
- Cadw Dysgwyr yn Ddiogel - Ion 2015
- Cofnodion Addysg, Adroddiadau Ysgol a'r System Drosglwyddo Gyffredin - cylchlythyr 18/2006
- Amddiffyn Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 - cylchlythyr 12/2007
- Gweithdrefnau Chwythu'r Chwiban mewn Ysgolion a Pholisi Enghreifftiol - cylchlythyr 36/2007
- Adrodd am Gamymddwyn ac Anghymwystra yn y Gwasanaeth Addysg - cylchlythyr 018/2009 (yn disodli rhif: 33/2005)
- Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol - cylchlythyr 002/2013 (yn disodli cylchlythyr 007/2001)
- Children Missing from Education 2010
- Ymyriad diogel ac effeithiol - defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau Hydref 2010
- Canllawiau Dyletswydd i Atal Diwygiedig ar gyfer Cymru a Lloegr – Gorffennaf 2015
- Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant sydd mewn Perygl o Gael eu Cam-drin drwy Gamfanteisio Rhywiol 2013

### **Dogfennau eraill o ffynonellau eraill**

- Deddf Plant 2004
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Addysg 2011
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Diogelu Data 1998
- Deddf Plant 1989
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru)2015

Hyperddolenni i wefannau sydd â chysylltiadau pwysig i Ddiogelu, ac yn enwedig Amddiffyn Plant (Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr)

- [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)
- [www.sewsc.org.uk](http://www.sewsc.org.uk)
- [www.governornet.co.uk](http://www.governornet.co.uk)
- [www.ewc.wales](http://www.ewc.wales)
- [www.ceop.police.uk](http://www.ceop.police.uk)





## Protocolau, Canllawiau a Dogfennau Defnyddiol De-ddwyrain Cymru

- Child Protection Conferences - SE Wales Protocol
- Complex Abuse - SE Wales Protocol
- Hostile and Uncooperative Parents - SE Wales Protocol
- Multi Agency Referral Form
- Multi Agency Guidance Resolving Professional Differences
- Multi Agency Guidance on Working with Hostile or Uncooperative Parents
- Neglect - Practice Guidance
- Esgeuluso Plant - Canllawiau Ymarfer
- Responding to Concerns or Allegations of Abuse Made Against Adults who Work with Children and Young People - Practice Guidance
- Ymateb i Bryderon neu Honiadau o Gamdriniaeth a Wneir yn Erbyn Oedolion sy'n Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc - Canllawiau Ymarfer
- Safe Recruitment - SE Wales Guidance

**Dogfennau sy'n gysylltiedig ag NCC sydd ar gael yn [www.newportlearn.net](http://www.newportlearn.net) gan gynnwys:**

- Canllawiau Llywodraeth Cymru ar RPI
- Canllawiau ar y defnydd o Ardaloedd 'Tawelu'
- Canllawiau ar Blant sy'n Colli Addysg

Bwriad y Swyddog Diogelu Addysg ar y cyd ag Uwch Reolwyr yw ychwanegu at y polisi hwn ac eitemau eraill ac at eitemau eraill ar wefan Newportlearn. Caiff y wefan hon ei diweddarau'n gyson a chaiff dogfennau newydd neu ddiwygiedig eu hychwanegu.

### Atodiadau

Atodiad A: Polisi Amddiffyn Plant Enghreifftiol ar gyfer Addysg.

Argymhellir bod y fformat a gofnodir yn 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' (Ion 2015) yn cael ei ddefnyddio fel y sail ar gyfer pob sefydliad a gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag Addysg. Gellir addasu'r fformat hwn i ddiwallu anghenion a gofynion y rhai sy'n gysylltiedig ag Addysg a gellir ei ddefnyddio fel y man cychwyn ar gyfer polisiâu a luniwyd yn benodol fel eu bod yn addas i'w rolau a'u cyfrifoldebau wrth weithio gyda phlant a'u cefnogi.



Mae'r fformat hwn i'w weld yn y ddogfen hon yn Atodiad I  
Dylai'r modd y caiff unrhyw bolisi ei lunio ddilyn tri phrif faes:-

- Atal
- Gweithdrefnau
- Cefnogi'r Disgybl/Person Ifanc sydd mewn Perygl

Gellir addasu'r meysydd hyn drwy newid rhai o'r geiriau fel eu bod yn addas i ofynion ysgolion a sefydliadau unigol.

D.S: Gellir ychwanegu polisiau ysgol neu sefydliad cysylltiedig eraill, fel yn yr enghreifftiau a roddir ar gyfer 'Bwlio' ac 'Ymyrraeth Gorfforol'. Gallai ychwanegiadau cysylltiedig eraill gynnwys:

- E-Ddiogelwch a'r defnydd o'r Rhyngrwyd
- Delio â Honiadau yn erbyn Staff (gan gynnwys Polisi Chwythu'r Chwiban NCC)
- Plant ag Anghenion Arbennig a/neu Anabledau.
- Proses Gweithdrefnau Amddiffyn Plant: O Atgyfeirio i Weithredu a Chymorth

Gellid ychwanegu gwybodaeth arall i blant, rhieni, staff a llywodraethwyr fel atodiadau i'r prif bolisi. Gallai hyn gynnwys dulliau o ail-godio pryderon yn fewnol a chanllawiau a chynghor i blant, staff a rhieni wrth godi pryderon.

Byddai'n ddefnyddiol i'r polisi gael ei ddiweddarau a chyhoeddi dyddiad cynnal yr adolygiad ffurfiol nesaf. Lle y bo'n briodol, byddai'n bwysig cofnodi'r dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethu neu Reolwyr ar y polisi.

Gallai eitemau sylfaenol o'r polisi gael eu cynnwys yng nghyhoeddiadau'r ysgol a/neu sefydliadau i rieni a phlant. Gallai copi llawn o'r polisi fod ar gael i rieni ar gais, ond gellir codi ychydig o dâl am hyn.

Atodiad I: Polisi Amddiffyn Plant enghreifftiol sy'n dilyn canllawiau 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel' (Ionawr 2015)



## **Polisi Amddiffyn Plant ar gyfer (Enw'r ysgol)**

### **Cyflwyniad**

Mae (enw'r ysgol) yn cydnabod yn llawn y cyfraniad a wna at amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

- atal drwy addysgu a chymorth bugeiliol a gynigir i ddisgyblion
- gweithdrefnau ar gyfer nodi ac adrodd ar achosion, neu achosion a amheuir, o gam-drin. Oherwydd ein cyswllt o ddydd i ddydd â phlant mae staff ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar arwyddion allanol cam-drin
- cymorth i ddisgyblion sydd wedi cael eu cam-drin o bosibl.

Mae ein polisi yn gymwys i bob aelod o staff a gwirfoddolwr sy'n gweithio yn yr ysgol a llywodraethwyr. Gall cynorthwyyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, staff derbynfa yn ogystal ag athrawon fod yn bwynt cyswllt cyntaf i blentyn ddatgelu rhywbeth.

### **Atal**

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion.

Felly, bydd yr ysgol:

- yn sefydlu ac yn cynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a lle y cânt eu hannog i siarad, a gwrandewir arnynt
- yn sicrhau bod plant yn gwybod bod yna oedolion yn yr ysgol y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni neu mewn trafferth
- yn cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer Addysg Personol a Chymdeithasol (ABCh) yn y cwricwlwm sy'n rhoi'r sgiliau i blant sydd eu hangen arnynt i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy y gallant droi am help
- yn cynnwys deunydd yn y cwricwlwm a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran gofal plant a sgiliau rhianta.

### **Gweithdrefnau**

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan a gymeradwywyd gan Fwrdd Lleol Diogelu Plant. Bydd yr ysgol:

- yn sicrhau bod ganddi uwch-berson dynodedig ar gyfer amddiffyn plant sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol

- yn cydnabod rôl yr uwch-berson dynodedig a threfnu cymorth a hyfforddiant. (Efallai y bydd ysgolion am grybwyll yr hyfforddiant ychwanegol a wneir gan eu huwch-berson dynodedig)
- yn sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:
  - o enw'r uwch-berson dynodedig a'i rôl a'r llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant
  - o sut i weithredu ar y pryderon hynny os na fydd yr uwch-berson dynodedig ar gael.
- yn sicrhau bod aelodau staff yn gwybod bod angen bod yn effro i arwyddion cam-drin a gwybod sut i ymateb i ddisgybl a all ddatgelu ei fod yn cael ei gam-drin
- yn sicrhau bod gan rieni ddealltwriaeth o'r cyfrifoldeb sydd ar yr ysgol a'r staff am amddiffyn plant drwy nodi ei rhwymedigaethau yn llyfryn yr ysgol
- yn darparu hyfforddiant i bob aelod o staff fel eu bod yn gwybod:
  - o beth yw eu cyfrifoldeb personol
  - o beth yw'r gweithdrefnau lleol
  - o bod angen bod yn effro i arwyddion o gam-drin
  - o sut i helpu plentyn sy'n datgelu ei fod yn cael ei gam-drin.
- hysbysu'r tîm gwasanaethau cymdeithasol lleol:
  - o os caiff disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ei eithrio naill am gyfnod penodol neu'n barhaol
  - o os yw disgybl sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb eglurhad am fwy na dau ddiwrnod o'r ysgol (neu am ddiwrnod ar ôl y penwythnos)
- yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol ag asiantaethau perthnasol a'u helpu, yn ôl y galw, gyda'u hymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant gan gynnwys presenoldeb yn yr adolygiad cychwynnol a'r cynadleddau amddiffyn plant a'r grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig ar gyfer y cynadleddau
- yn cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon ynghylch plant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed pan nad oes angen cyfeirio'r mater ar y gwasanaethau cymdeithasol ar unwaith
- yn sicrhau y cedwir pob cofnod yn ddiogel ac mewn lleoliadau dan glo.
- yn dilyn y gweithdrefnau a nodwyd yng nghylchlythyr 002/113 Llywodraeth Cymru: 'Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol'





- sicrhau y caiff gweithdrefnau recriwtio a dethol eu gwneud yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru 'Cadw Dysgwyr yn Ddiogel'
- yn dynodi llywodraethwr ar gyfer amddiffyn plant a fydd yn goruchwylio polisi ac ymarfer amddiffyn plant yr ysgol

### **Cefnogi'r disgybl sydd mewn perygl**

Rydym yn cydnabod bod sefyllfa lle mae plentyn mewn perygl, yn cael ei gam-drin neu'n dyst i drais yn gallu cael effaith fawr ar y plentyn hwnnw.

Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, ddiogel a rhagweladwy ym mywydau plant sydd mewn perygl. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol a herfeiddiol neu gallant fynd i'w cragen.

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r disgybl drwy'r canlynol:

- cynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant (gweler adran 2 ar atal)
- ethos yr ysgol sy'n:
  - o hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
  - o rhoi ymdeimlad o werth i ddisgyblion (gweler adran 2 ar Atal)
- polisi ymddygiad yr ysgol sydd â'r nod o gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed yn yr ysgol. Bydd pob aelod o staff yn cytuno ar ddull gweithredu cyson sy'n canolbwyntio ar ymddygiad y drosedd a gyflawnwyd gan y plentyn ond nid yw'n niweidio hunan-werth y disgybl. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y disgybl yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei werthfawrogi ac nad yw'n cael ei feio am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd;
- cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r myfyriwr megis Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Cymorth Ymddygiad, Gwasanaeth Lles Addysg a gwasanaethau eiriolaeth
- cadw cofnodion a hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol cyn gynted ag y bydd pryder yn ailgodi

Pan fydd disgybl ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth i'r ysgol newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

### **Recriwtio mwy diogel**

Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Pennod 5 Arferion Recriwtio Mwy Diogel), bydd yr ysgol hon/lleoliad hwn yn dilyn prosesau rheoli Adnoddau Dynol, sy'n cynnwys gwiriad cofnodion troseddol a gwiriad rhestr waharddedig gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.



Bydd yn ofynnol i bob aelod o staff, gwirfoddolwyr a llywodraethwyr gadw tystysgrif ddatgelu gyfredol y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu, lle y bo'n gymwys, yn unol â rheoliadau'r Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu. Gellir cael canllawiau pellach ar hyn oddi wrth yr adran Adnoddau Dynol. Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o holl ddyddiadau datgelu staff y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu ac yn sicrhau bod y gwaith adnewyddu yn cael ei gyflawni ar amser yn unol â pholisiau Adnoddau Dynol.

Dylai'r gwaith o benodi staff yn ddyddiol mewn ysgolion orfod bodloni'r un gofynion llym â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer aelodau parhaol o staff. Bydd y Pennaeth yn sicrhau bod gan unrhyw un a benodir i weithio yn yr ysgol gymwysterau, geirdaon a gwiriadau boddhaol.

Y Pennaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau bod pob un sy'n dod ar safle'r ysgol wedi cael ei asesu'n briodol o ran risg mewn amgylchiadau lle nad yw datgeliadau cyfredol y Gwasanaeth Gwahardd a Datgelu ar gael.

### **Bwlio**

Mae ein polisi ar fwlio i'w weld yn (dogfen ar wahân/polisi ymddygiad yr ysgol) ac fe'i hadolygir bob blwyddyn gan y corff llywodraethu.

### **Ymyrraeth Gorfforol**

Mae ein polisi ar ymyrraeth gorfforol i'w weld yn (dogfen ar wahân) ac fe'i hadolygir bob blwyddyn gan y corff llywodraethu ac mae'n gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ymyriad diogel ac effeithiol - defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau 097/2013

### **Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig**

Cydnabyddwn yn ystadegol mai plant ag anawsterau ymddygiad ac anabledau yw'r rhai sydd fwyaf agored i gael eu cam-drin. Mae angen i staff ysgol sy'n delio â phlant ag anabledau dwys a lluosog, nam ar y synhwyrau a/neu broblemau emosiynol neu ymddygiad fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gam-drin. Mae polisi'r ysgol ar AAA i'w weld yn (dogfen ar wahân) a gellir dod o hyd i'r polisi hwn/gwybodaeth hon yn (nodwch ble).

### **E-Ddiogelwch**

Mae polisi'r ysgol ar E-Ddiogelwch i'w weld yn (dogfen ar wahân/polisi TG yr ysgol ac ati). Gellir dod o hyd i'r polisi hwn/gwybodaeth hon yn (nodwch ble).

### **Plant sy'n ymuno â'r System Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae'r ysgol hon yn cydnabod mai plant sy'n ymuno â'r System Plant sy'n Derbyn Gofal yw'r rhai sydd fwyaf agored i niwed a'r rhai mwyaf anghenus. Mae polisi'r ysgol ar Plant sy'n Derbyn Gofal i'w weld yn (dogfen ar wahân) a gellir dod o hyd i'r polisi hwn/gwybodaeth hon yn (nodwch ble).

## **Radicaleiddio**

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau (o dan Adran 26 o Ddeddf Gwrth-derfysgaeth a Diogelwch 2015 a Chanllawiau Dyletswydd i Atal) i ddiogelu disgyblion sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio. Gwna'r ysgol hyn drwy:

- Ddarparu amgylchedd diogel i ddisgyblion siarad am faterion a all beri pryder iddynt, gan gynnwys pynciau sensitif fel terfysgaeth ac ideoleg eithafol.
- Nodi ac asesu risg unigolion a all gael eu denu at derfysgaeth, eithafiaeth dreisgar neu ddi-drais.
- Gwybod sut i gwblhau atgyfeiriad Channel a sut i gael cefnogaeth i'r plentyn/person ifanc
- Sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant priodol a'u bod yn meddu ar y wybodaeth a'r hyder i nodi disgyblion sydd mewn perygl o gael eu denu at derfysgaeth ac eithafiaeth a herio syniadau eithafol.
- Sicrhau bod plant yn ddiogel rhag deunyddiau terfysgaeth ac eithafiaeth pan fyddant yn defnyddio'r rhyngwyd yn yr ysgol, yn cynnwys rhoi lefelau hidlo priodol ar waith.

## **Gofyniad i hysbysu'r heddlu am achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)**

Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i dyletswydd i hysbysu'r heddlu am achosion hysbys o FGM (adran 74 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015). Pan fydd staff yn amau bod achos o FGM wedi digwydd neu os credant y gall merch fod mewn perygl, yna bydd yr ysgol yn dilyn gweithdrefnau diogelu sydd eisoes yn bodoli yn yr achosion hyn.

## **Cam-drin Domestig a Thrais ar sail Rhywedd**

Mae hyn yn ymwneud â'r canlynol: cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol lle mae'r dioddefwr yn byw gyda'r un sy'n cam-drin neu'n perthyn iddo. Gall dynion, menywod a phlant fod yn ddioddefwyr.

Mae plant mewn teuluoedd, lle mae problem cam-drin domestig, mewn perygl o gael eu niweidio.

Trais ar sail rhywedd yw trais neu fygythiadau o drais sy'n deillio o gredoau neu arferion sy'n gysylltiedig â rhywedd.

Trais rhywiol - yn cynnwys camfanteisio, aflonyddu neu fygythiadau o natur rhywiol.

Yn aml ceir cysylltiadau rhwng cam-drin domestig a cham-drin plant. Pan fydd ysgolion yn gwybod neu'n amau bod cam-drin domestig yn y cartref yna dylai'r uwch-person dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant gymryd camau priodol.

Ceir canllawiau pellach yn: 'Gwybodaeth a Chanllawiau ar Gam-drin Domestig: Diogelu Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru'

## **Polisi Chwythu'r Chwiban**

Mae polisi chwythu'r chwiban yr ysgol i'w weld yn (dogfen ar wahân). Gellir dod o hyd i'r polisi hwn/gwybodaeth hon yn (nodwch ble).

## **Atodiad 2: Nodyn enghreifftiol i staff**

Beth i'w wneud os bydd plentyn yn dweud wrthyfch ei fod wedi cael ei gam-drin gan rywun heblaw am aelod o staff

D.S: lle mae'r honiad yn erbyn aelod o staff, dylech gyfeirio at Gylchlythyr 002/2013 Llywodraeth Cymru Gweithdrefnau Disgyblu a Diswyddo Staff Ysgol a 009/2014 Diogelu Plant mewn Addysg; ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill. Rhaid hysbysu Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol am unrhyw honiadau yn erbyn aelod o staff neu'r Swyddog Diogelu Addysg ar unwaith cyn cymryd unrhyw gamau pellach.

Gall plentyn ymddiried mewn unrhyw aelod o staff ac efallai na fydd bob amser yn mynd at aelod o'r staff addysgu. Dylai staff y gwneir honiad iddynt gofio'r canlynol bob amser:

- rôl wrando sydd gennych chi, peidiwch â thorri ar draws plentyn yn siarad os yw'n dwyn i gof ddigwyddiadau pwysig yn ddigymell. Peidiwch â holi gormod o gwestiynau er mwyn i chi ddeall yr hyn y mae'r plentyn yn ei ddweud. Dylech lunio cwestiynau mewn ffordd agored fel nad ydych yn camarwain y plentyn
- rhaid i chi roi gwybod i uwch-berson dynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant ar lafar ar unwaith
- gwnewch nodyn o'r drafodaeth, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (ond o fewn 24 awr) i'w drosglwyddo i berson dynodedig yr ysgol ar gyfer amddiffyn plant. Dylai'r nodyn, a ddylai fod yn glir o ran ei ddefnydd o derminoleg, gofnodi'r amser, y dyddiad, y lle a'r bobl a oedd yn bresennol a dylai gofnodi atebion/ymatebion y plant yn yr union ffordd ag y cawsant eu dweud hyd y gellir. Cofiwch, efallai y caiff eich nodyn o'r drafodaeth ei ddefnyddio mewn achos llys dilynol
- peidiwch ag addo cyfrinachedd llwyr
- y gall fod yn rhaid i blentyn sy'n aros i achos, mynd gerbron llys troseddol, roi tystiolaeth neu gall fod yn aros am achos gofal
- mae eich cyfrifoldeb o ran atgyfeirio pryderon yn dod i ben ar y pwynt hwn, ond efallai y bydd gennych ran i'w chwarae yn y dyfodol o ran helpu neu fentro'r plentyn, cyfrannu at asesiad neu roi cynlluniau amddiffyn plant ar waith.



## **Cyfrinachedd**

Bydd angen deall materion cyfrinachedd os bydd plentyn yn datgelu gwybodaeth ei fod yn cael ei gam-drin. Dim ond os bydd plentyn yn teimlo na chaiff y wybodaeth ei datgelu i unrhyw un arall y gall deimlo'n ddigon hyderus i ymddiried mewn aelod o staff. Fodd bynnag, mae gan staff addysg gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol ynglŷn ag amddiffyn plant â'r asiantaethau statudol dynodedig pan fydd gan blentyn bryderon lles.

Mae'n bwysig bod pob aelod o staff yn delio â hyn mewn ffordd sensitif ac yn egluro i'r plentyn fod yn rhaid iddo hysbysu'r bobl briodol a all helpu'r plentyn, ac mai dim ond wrth y rhai sydd angen gwybod er mwyn gallu helpu y bydd yn dweud. Dylai'r aelod o staff sicrhau'r plentyn na fydd ei sefyllfa yn hysbys i bawb yn yr ysgol. Byddwch yn ymwybodol y gall fod wedi cymryd cryn dipyn o ddewrder ar ran y plentyn i ddatgelu'r wybodaeth ac y gall hefyd fod yn profi emosiynau croes, yn cynnwys teimlo'n euog, â chywilydd, yn anffyddlon (os yw'r camdriniwr yn rhywun agos ato) a loes meddwl.

Cofiwch am gyfrifoldeb bugeiliol y gwasanaeth addysg. Sicrhewch mai dim ond rheini sydd â chysylltiad proffesiynol, e.e. yr uwch-berson dynodedig a'r pennaeth, sydd â hawl i weld y cofnodion amddiffyn plant. Ar bob adeg arall, dylid eu cadw dan glo yn ddiogel a'u cadw ar wahân i brif ffeil y plentyn.

Yr uwch-berson dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn yr ysgol hon yw:

\_\_\_\_\_

Y dirprwy berson dynodedig yw:

\_\_\_\_\_

Y llywodraethwr dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yw:

\_\_\_\_\_

Rhif ffôn \_\_\_\_\_

Swyddog Diogelu Addysg yr awdurdod lleol yw:  
Nicola Davies      [nic.davies@newport.gov.uk](mailto:nic.davies@newport.gov.uk)  
Rhif ffôn      01633 235664/07817106758



Swyddog Arweiniol Dynodedig yr awdurdod lleol ar gyfer amddiffyn plant yw:  
Mike Sloan                      mike.sloan@newport.gov.uk  
Rhif ffôn    01633 851485

Rhif cyswllt ar gyfer desg Dyletswydd Plant: 01633 656656/851423

Rhif y tu allan i oriau: 0800 3284432

Awdur: L Meade – Amddiffyn Plant

Awdur Adolygu: Nicola Davies – Swyddog Diogelu Addysg

Dyddiad: Mehefin 2016

Dyddiad Adolygu: Ionawr 2017

Version: 1.0

